## B. Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Hawliau Dynol

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Ar 9 Gorffennaf 2024, cyhoeddodd y Prif Weinidog ar y pryd, Vaughan Gething, flaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill tymor y Senedd. Roedd hyn yn cynnwys Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) (Cymru) a fydd yn sicrhau mwy o ddiogelwch i’r bobl sy’n byw yng nghysgod tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

Nod trosfwaol y Bil yw atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd y Bil yn cyflawni hyn drwy sefydlu cyfundrefn ar gyfer asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

Mae’r duedd o effeithiau newid hinsawdd sy’n peri pryder yn golygu y disgwylir i dirlithriadau ddigwydd yn fwy aml, a gall hyn achosi difrod sylweddol i gymunedau, seilwaith allweddol, a’r amgylchedd. Mae darpariaethau’r Bil yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch pob dinesydd drwy leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau, ac felly’r effeithiau sy'n gysylltiedig â thirlithriadau megis: colli bywyd; anaf; pryderon iechyd corfforol ac iechyd meddwl tymor byr a hirdymor; difrod i dai, ysgolion, a chanolfannau iechyd; amharu ar drafnidiaeth a chyfleustodau; llygredd a dinistrio'r amgylchedd.

Bydd y Bil yn sefydlu corff newydd, Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru (yr Awdurdod) ac yn rhoi swyddogaethau i’r Awdurdod. Prif amcan yr Awdurdod, fel y darperir ar ei gyfer yn y Bil, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd.

Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys asesu ac, wedi hynny, categoreiddio tomenni nas defnyddir, swyddogaethau monitro a chreu a chynnal cofrestr electronig o domenni nas defnyddir.

Mae’r Bil hefyd yn rhoi’r gallu i’r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau ar dir lle mae’n ystyried bod gweithrediadau o’r fath yn angenrheidiol i atal neu fynd i’r afael â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu i sefydlogi tomen nas defnyddir neu ei hatal rhag troi’n fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les dynol. Rhaid i'r Awdurdod roi cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â thomenni nas defnyddir a gall roi gwybodaeth a chyngor i unrhyw berson mewn perthynas â thomenni nas defnyddir.

Bydd gan yr Awdurdod y gallu i ymgymryd â gweithrediadau ar dir os yw'n ystyried ei fod yn angenrheidiol i atal neu fynd i'r afael â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu i sefydlogi tomen nas defnyddir rhag troi'n fwy ansefydlog. Disgwylir y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau megis pan fydd yr Awdurdod o'r farn nad yw'r perchnogion yn gallu, neu maent yn amharod i ymgymryd â'r gwaith eu hunain neu yn dilyn apêl lwyddiannus yn erbyn hysbysiad.

Mewn argyfwng, mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod ymgymryd â gweithrediadau heb roi hysbysiad, lle mae'n ystyried bod angen ymgymryd â gweithrediadau ar unwaith er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les dynol. Fodd bynnag, ar ôl dechrau ar y gwaith, rhaid i'r Awdurdod cyn gynted ag y bo'n ymarferol, roi hysbysiad i berchennog y tir fod y gweithrediadau wedi dechrau gydag amlinelliad o'r rhesymau pam fod angen gwneud y gwaith.

Mae'r Bil yn cynnwys hawliau mynediad i berchennog tir y mae'n ofynnol iddynt, gan yr Awdurdod, ymgymryd â gweithrediadau penodol. Mae hefyd yn darparu y gall person a awdurdodir gan yr Awdurdod gael mynediad i dir i alluogi'r Awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag archwilio, monitro, asesu, gweithrediadau, gwaith canlyniadol, ac ati. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â digolledu mewn perthynas â sefyllfaoedd gan gynnwys y rhai lle mae tir wedi'i ddifrodi, eiddo wedi'i ddifrodi, ei symud neu ei waredu, neu os oes aflonyddu ar fwynhau tir.

Mae'r Bil yn cynnwys yr hawl i apelio mewn rhai achosion, er enghraifft mewn perthynas ag hysbysiad a roddir gan yr Awdurdod sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau, neu mewn perthynas â gorchymyn cyfrannu. Yn ogystal, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â digolledu lle mae tir wedi'i ddifrodi, eiddo wedi'i ddifrodi, ei symud neu ei waredu, neu os oes aflonyddu ar fwynhau tir. I rai perchnogion tomenni nas defnyddir a pherchnogion tir, mae'n bosibl na fyddant yn gallu fforddio talu'r costau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau angenrheidiol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd perchennog tir yn gallu apelio yn erbyn hysbysiad i ymgymryd â gweithrediadau ar y sail nad yw'r perchennog yn gallu talu cost y gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad. Bydd y Bil yn effeithio ar gyrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn ogystal ag unigolion. Nid ydym yn rhagweld y bydd y cynigion hyn yn cael effaith negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Bydd cyflwyno dull cyson o fonitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yn lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau.

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar y Papur Gwyn ac ni nododd hyn unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Ar ben hynny, ni nododd yr ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyn unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol o ganlyniad i'r cynigion.

Gyda thros 85% o domenni glo nas defnyddir yng nghymoedd y De, nod y cynigion yw darparu cyfundrefn reoleiddio sy'n lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau ar y cymunedau hyn, y mae llawer ohonynt ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig gan

ddefnyddio Nod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). O ystyried lle mae'r rhan fwyaf o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru, rhagwelir y bydd cyfundrefn newydd ar gyfer monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yn cael mwy o effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Rydym o'r farn y bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch pob dinesydd, boed mewn grŵp nodwedd warchodedig ai peidio.

Y bwriad yw ychwanegu'r Awdurdod, drwy orchymyn, at y rhestr yn Atodlen 19 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010). Yn rhinwedd ei gynnwys yn rhestr yr awdurdodau cyhoeddus yn Atodlen 19 o Ddeddf 2010, bydd yr Awdurdod yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf 2010; hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol (neu nodweddion lluosog) a phersonau nad ydynt yn ei rhannu. Rydym wedi adolygu'r ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. O ran y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, ni nododd ymatebwyr unrhyw feysydd sydd angen eu hystyried ymhellach nac unrhyw effeithiau eraill nad oeddent eisoes wedi'u nodi yn y Papur Gwyn.

Cynhelir asesiadau effaith pellach, fel y bo'n briodol, pan wneir is-ddeddfwriaeth o dan bwerau yn y Bil. Cynhelir ymgynghoriad priodol mewn perthynas ag unrhyw is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol a, lle bo'n briodol, bydd cyfleoedd i ymgysylltu'n llawn â grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, wrth ddatblygu'r polisi. Bydd yn haws i'r rhanddeiliaid hynny ragweld yr effeithiau yn y cam hwnnw pan fydd ystyriaethau polisi penodol yn cael eu drafftio.

**Cofnod o Effeithiau fesul nodwedd warchodedig**

Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos sut y gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn gael effaith (cadarnhaol neu negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. *(Cyfeiriwch at ddogfen ganllaw AEA am fwy o wybodaeth.)* Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd rydych wedi'u nodi a allai hybu neu hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae hyn yn cynnwys nodi'r hyn y gallwn ei wneud i gael gwared ar rwystrau a gwella cyfranogiad i bobl heb gynrychiolaeth ddigonol neu sy'n dioddef anfantais anghymesur.

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio ag asesu effeithiau ar gydraddoldeb*. Amlygwch unrhyw fylchau yn y dystiolaeth rydych wedi'u nodi ac esboniwch sut/os ydych yn bwriadu llenwi'r bylchau hyn.

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch yn lliniaru'r Effeithiau? |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael effaith ar oedran. Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb beth bynnag fo'u hoedran. | Bydd yr Awdurdod yn darparu budd cyffredinol o well gyfundrefn reoli ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir, gan ddarparu cymunedau mwy diogel i fyw ynddynt yn sgil lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau.<br><br>Bydd archwilio a rheoli tomenni nas defnyddir yn helpu i ddiogelu lles dynol.<br><br>Gall yr Awdurdod ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad i bobl beth bynnag fo'u hoedran.<br><br>Mae'r Awdurdod nid yn unig yn chwarae rôl gynghori i annog perchnogion tomenni nas defnyddir i gyflawni eu cyfrifoldebau ond bydd ganddo bwerau i gamu i'r adwy lle na all y rhai sydd â chyfrifoldeb wneud hynny neu le na fyddant yn gwneud hynny. Y bwriad yw y bydd yr Awdurdod yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[1][2] a bydd yn ofynnol iddo, o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, i ddangos tystiolaeth o'i weithredoedd i gefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig. O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, bydd angen i'r Awdurdod hefyd liniaru yn erbyn unrhyw effeithiau negyddol ar y | Pan fydd perchennog tir yn dod o dan y nodwedd warchodedig hon, lle bo'n briodol, bydd y darpariaethau apelau yn berthnasol iddynt fel gydag unrhyw berchennog tir |

[1] Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: canllawiau i awdurdodau cyhoeddus - GOV.UK (www.gov.uk)

[2] Cysylltiadau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus â Dyletswydd Cydraddoldeb Benodol Cymru gweler a8 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhai sydd â nodweddion gwarchodedig y mae'n eu darganfod yn ystod ei ddyletswyddau. | |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd [3] a sut y gallai eich cynnig yn anfwriadol cael gwared ar y rhwystrau y mae pobl anabl sydd â gwahanol amhariadau yn eu hwynebu, neu sut y gellid defnyddio eich cynnig i gael gwared yn rhagweithiol arnynt). | Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael unrhyw effaith ar bobl gydag anableddau.<br><br>Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb beth bynnag fo'u hanabledd. | Bydd yr Awdurdod yn darparu budd cyffredinol o well gyfundrefn reoli ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir, gan ddarparu cymunedau mwy diogel i fyw ynddynt yn sgil lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn gallu rhoi gwybodaeth, cymorth, neu gyngor ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â thomen nas defnyddir benodol neu domenni nas defnyddir yn gyffredinol. Gall yr Awdurdod ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad i bobl beth bynnag fo'u hanabledd. | Pan fydd perchennog tir yn dod o dan y nodwedd warchodedig hon, lle bo'n briodol, bydd y darpariaethau apelau yn berthnasol iddynt fel gydag unrhyw berchennog tir |

[3] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanablu gan eu hamhariadau ond gan y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn cael gwared ar rwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwiliwch am y 'model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl Drawsryweddol) | Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael unrhyw effaith ar bobl sydd wedi ailbennu, neu sydd yn y broses o ailbennu, eu rhywedd. Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb yr un fath. | Bydd yr Awdurdod yn darparu budd cyffredinol o well gyfundrefn reoli ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir, gan ddarparu cymunedau mwy diogel i fyw ynddynt yn sgil lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau. | Pan fydd perchennog tir yn dod o dan y nodwedd warchodedig hon, lle bo'n briodol, bydd y darpariaethau apelau yn berthnasol iddynt fel gydag unrhyw berchennog tir |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael unrhyw effaith ar bobl sy'n feichiog, sydd wedi'u mabwysiadu neu sydd ar absenoldeb mamolaeth/tadolaeth. Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb yr un fath. | Bydd yr Awdurdod yn darparu budd cyffredinol o well gyfundrefn reoli ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir, gan ddarparu cymunedau mwy diogel i fyw ynddynt yn sgil lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau. | Pan fydd perchennog tir yn dod o dan y nodwedd warchodedig hon, lle bo'n briodol, bydd y darpariaethau apelau yn berthnasol iddynt fel gydag unrhyw berchennog tir |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr lloches a Ffoaduriaid) | Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael unrhyw effaith ar hil. Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb yr un fath. | Bydd yr Awdurdod yn darparu budd cyffredinol o well gyfundrefn reoli ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir, gan ddarparu cymunedau mwy diogel i fyw ynddynt yn sgil lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau.<br><br>Gall yr Awdurdod ddarparu cyngor ac arweiniad i berchnogion ar gamau gweithredu a argymhellir i sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd.<br><br>Bydd gan yr Awdurdod bwerau i gamu i'r adwy lle na all y rhai sydd â chyfrifoldeb wneud hynny | Pan fydd perchennog tir yn dod o dan y nodwedd warchodedig hon, lle bo'n briodol, bydd y darpariaethau apelau yn berthnasol iddynt fel gydag unrhyw berchennog tir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | neu le na fyddant yn gwneud hynny. | |
| Crefydd, cred a di-gred | Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael effaith negyddol ar gyfer Crefydd, cred a di-gred. Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb yr un fath. | Bydd yr Awdurdod yn darparu budd cyffredinol o well gyfundrefn reoli ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir, gan ddarparu cymunedau mwy diogel i fyw ynddynt yn sgil lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am fonitro tomenni nas defnyddir.<br><br>Gall yr Awdurdod ddarparu cyngor ac arweiniad i berchnogion ar gamau gweithredu a argymhellir i sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. | Pan fydd perchennog tir yn dod o dan y nodwedd warchodedig hon, lle bo'n briodol, bydd y darpariaethau apelau yn berthnasol iddynt fel gydag unrhyw berchennog tir |
| Rhyw / Rhywedd | Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael unrhyw effaith negyddol ar ryw a/neu rywedd. Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb yr un fath. | Bydd yr Awdurdod yn darparu budd cyffredinol o well gyfundrefn reoli ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir, gan ddarparu cymunedau mwy diogel i fyw ynddynt yn sgil lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am fonitro tomenni nas defnyddir.<br><br>Gall yr Awdurdod ddarparu cyngor ac arweiniad i berchnogion ar gamau gweithredu a argymhellir i sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd.<br><br>Bydd gan yr Awdurdod bwerau i gamu i'r adwy lle na all y rhai sydd â | Pan fydd perchennog tir yn dod o dan y nodwedd warchodedig hon, lle bo'n briodol, bydd y darpariaethau apelau yn berthnasol iddynt fel gydag unrhyw berchennog tir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | chyfrifoldeb wneud hynny neu le na fyddant yn gwneud hynny. | |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael unrhyw effaith ar gyfeiriadedd rhywiol. Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb yr un fath. | Bydd yr Awdurdod yn darparu budd cyffredinol o well gyfundrefn reoli ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir, gan ddarparu cymunedau mwy diogel i fyw ynddynt yn sgil lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am fonitro tomenni nas defnyddir.<br><br>Gall yr Awdurdod ddarparu cyngor ac arweiniad i berchnogion i sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd.<br><br>Bydd gan yr Awdurdod bwerau i gamu i'r adwy lle na all y rhai sydd â chyfrifoldeb wneud hynny neu le na fyddant yn gwneud hynny. | Pan fydd perchennog tir yn dod o dan y nodwedd warchodedig hon, lle bo'n briodol, bydd y darpariaethau apelau yn berthnasol iddynt fel gydag unrhyw berchennog tir |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael unrhyw effaith ar briodas neu bartneriaeth sifil. Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb yr un fath. | Bydd yr Awdurdod yn darparu budd cyffredinol o well gyfundrefn reoli ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir, gan ddarparu cymunedau mwy diogel i fyw ynddynt yn sgil lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am fonitro tomenni nas defnyddir.<br><br>Gall yr Awdurdod ddarparu cyngor ac arweiniad i berchnogion i sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol | Pan fydd perchennog tir yn dod o dan y nodwedd warchodedig hon, lle bo'n briodol, bydd y darpariaethau apelau yn berthnasol iddynt fel gydag unrhyw berchennog tir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | oherwydd eu hansefydlogrwydd.<br><br>Bydd gan yr Awdurdod bwerau i gamu i'r adwy lle na all y rhai sydd â chyfrifoldeb wneud hynny neu le na fyddant yn gwneud hynny. | |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael unrhyw effaith negyddol ar blant a phobl ifanc. Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb yr un fath. | Bydd yr Awdurdod yn darparu budd cyffredinol drwy wella'r gyfundrefn ar gyfer rheoli diogelwch tomenni nas defnyddir. Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant am ystyriaeth fanwl o effaith y Bil ar blant a hawliau plant.<br><br>Bydd y gyfundrefn hefyd yn atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Gall lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a lleihau lefelau pryder ymhlith pobl ifanc a phlant. Yn ogystal, roedd ffactor straen a nodwyd gan icc.gig.cymru<br><br>yn cynnwys straen yn ymwneud ag addysg ac ysgol, megis colli cyfleusterau ysgol a cholli cymdeithasu sy'n gysylltiedig â mynd i'r ysgol. | Pan fydd perchennog tir yn dod o dan y nodwedd warchodedig hon, lle bo'n briodol, bydd y darpariaethau apelau yn berthnasol iddynt fel gydag unrhyw berchennog tir |
| Aelwydydd incwm isel | Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael unrhyw effaith negyddol ar aelwydydd incwm isel ac mae'n bosibl y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn. Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb yr un fath. | Bydd yr Awdurdod yn darparu budd cyffredinol o well gyfundrefn reoli ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir, gan ddarparu cymunedau mwy diogel i fyw ynddynt yn sgil lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau. | Un risg posibl yw y gallai eiddo sydd wedi'u lleoli yn agos i domenni nas defnyddir categori uwch (1 a 2) weld effaith ar eu polisïau yswiriant a gallant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Nodir hefyd bod mwyafrif y tomenni glo nas defnyddir wedi'u lleoli mewn ardaloedd difreintiedig (Papur Gwyn paragraff 1.24) ac felly bydd unrhyw welliant i ddiogelwch y tomenni hyn ac i'r amgylchedd yn fudd cadarnhaol i deuluoedd incwm isel, gan gynnwys lleihau'r risg o dirlithriadau.<br><br>Os bydd perchennog tomen yn dod o dan y categori hwn, bydd yr Awdurdod yn gallu darparu cymorth, cyngor ac arweiniad iddynt. | fod yn destun premiymau yswiriant uwch.<br><br>Yn gyffredinol, ystyrir mai'r risg bennaf yw'r effaith economaidd ganfyddedig ('malltod') wrth ryddhau lleoliadau'r tomenni nas defnyddir a chyflwyno cyfundrefn reoleiddio yn hytrach nag unrhyw effeithiau economaidd gwirioneddol.<br><br>Pan fydd perchennog tir yn dod o dan y nodwedd warchodedig hon, lle bo'n briodol, bydd y darpariaethau apelau yn berthnasol iddynt fel gydag unrhyw berchennog tir |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

A ydych o'r farn y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? (*Cyfeiriwch at bwynt 1.4 o Ganllawiau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am fwy o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).*

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol | Ni ddisgwylir i'r cynigion hyn gael unrhyw effaith negyddol ar hawliau dynol. | Bydd y Bil yn diogelu lles dynol ac mae'n berthnasol i bawb yr un fath.<br><br>Bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi i gefnogi gweithredu'r Bil. Y bwriad yw darparu gwybodaeth a fydd yn sicrhau eglurder i'r Awdurdod, aelodau o'r cyhoedd ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill.<br><br>Bydd ymgynghori mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth a bydd hyn yn gymesur ac yn briodol i | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | natur y rheoliadau sy'n cael eu cynnig. Bydd ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, lle bo hynny'n briodol, wrth i'r polisi gael ei ddatblygu. Bydd yn haws i'r rhanddeiliaid hynny ragweld yr effeithiau yn y cam hwnnw pan fydd ystyriaethau polisi penodol yn cael eu drafftio.<br><br>Bydd asesiadau effaith pellach yn cael eu cynnal fel y bo'n briodol maes o law pan wneir is-ddeddfwriaeth o dan bwerau yn y Bil. | |

***Mae'r effaith mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael sylw yn Atodiad A.***

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut fyddwch yn lliniaru'r Effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| **Yr hawl i fywyd (Erthygl 1)** | Rhagwelir y bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar fwynhad pobl o'r hawl hon. | Prif amcan yr Awdurdod, wrth arfer ei swyddogaethau, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. | |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a Dinasyddion Swisaidd**

Mae Rhan 2 o Gytundeb Ymadael yr UE-DU, ynghyd â'r Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau'r AEE-EFTA a Chytundeb Hawliau Dinasyddion Swisaidd ("Cytundebau Hawliau Dinasyddion") yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr AEE[4] a dinasyddion Swisaidd a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y bydd eu hawliau dinasyddion wedi'u diogelu.

Caiff Cytundebau Hawliau Dinasyddion eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020[5]

Bydd gan unigolion cymwys sydd o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion fwy neu lai'r un hawliau parhaus i weithio ac astudio ac i fynediad at wasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau, i'r graddau bod yr hawliau hyn wedi deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn ogystal â'i chyfranogiad yng Nghytundeb yr AEE a Chytundeb Rhyddid Pobl i Symud yr UE-Swisaidd.

Yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig penodol[6], bydd angen bod unigolion wedi gwneud cais am statws preswylio newydd (naill ai statws preswylydd cyn-sefydlog neu statws preswylydd sefydlog) trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Daeth y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o'r fath i ben ar 30 Mehefin 2021.

Ystyriaethau polisi i ystyried:

- A ydych wedi ystyried a fydd eich cynnig polisi yn effeithio ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu Swisaidd y mae eu hawliau wedi'u diogelu gan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion?
- Os oes posibilrwydd o unrhyw effaith negyddol ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu Swisaidd, sut y bydd unrhyw effeithiau o'r fath yn cael eu dileu neu eu rheoli os ystyrir bod rheoli yn briodol?
- A oes angen cyngor cyfreithiol?

Ystyriwch effeithiau eich polisi ar y meysydd isod, gan nodi a yw'r effaith yn gadarnhaol neu'n negyddol ac unrhyw gamau sydd eu hangen i ddileu effaith negyddol bosibl. Nodwch y sail dros eich ateb, gan gynnwys lle ceisiwyd cyngor cyfreithiol a nodwch hefyd lle nad yw hawl yn berthnasol i'ch polisi:

---

[4] Mae'r AEE yn cynnwys gwledydd yr UE yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

[5] Adran 5 a 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020

[6]E.e. pan fo gan unigolyn ddinasyddiaeth Wyddelig (gan gynnwys dinasyddiaeth ddeuol Brydeinig a Gwyddelig) neu le'r oedd ganddynt ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi)

**Preswyliad –** yr hawl i breswylio a hawliau eraill cysylltiedig i breswyliad: hawliau ymadael a mynediad, ceisiadau preswylio, cyfyngiadau ar hawliau mynediad a phreswylio; AMH

**Cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol** – cydnabyddiaeth barhaus o gymwysterau proffesiynol a ennillwyd gan ddinasyddion yr UE/yr AEE/Swisaidd yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

**Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol** – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd AMH

**Triniaeth gyfartal** – mae hyn yn cwmpasu peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr; Dim newid i'r gofynion cyfreithiol presennol.

**Hawliau gweithwyr** - Gwarantir i weithwyr a phobl hunangyflogedig a gwmpesir o dan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion fwy neu lai'r un hawliau ag yr oeddent yn eu mwynhau pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt hawl i beidio â chael eu gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd eu cenedligrwydd, a'r hawl i gael triniaeth gyfartal â gwladolion y DU. Dim newid i'r gofynion cyfreithiol presennol

(Gall gweithwyr trawsffiniol (y dinasyddion hynny sy'n byw mewn un wladwriaeth ac sy'n gweithio'n rheolaidd mewn un arall) barhau i weithio yn y DU os gwnaethant hynny erbyn 31 Rhagfyr 2020).